

## Cofion a Chyfarchion

- Anfonwn ein cofion at Mairwen Morris (Nantglyn) a Gwyn Jones (Peniel) sydd wedi bod yn cael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd ar hyd yr wythnos, ond mae sôn y caiff Mairwen ddod oddi yno erbyn y penwythnos. Anfonwn ein cofion hefyd at Gwenllian Jones (Henllan) sy'n cael gofal yn Ysbyty Maelor, fel ag y mae Gwyneth Rawson (Llanfair) yn yr Inffirmari. Hyderwn y bydd y pedwar yn cael gwellhad buan, ac y byddant yn profi agosrwydd yr Arglwydd y dyddiau hyn. Cofiw'n hefyd am eraill o'n plith sy'n aros llawdriniaeth ac eraill sydd wedi cael anffawd yn ddiweddar neu sydd heb fod yn dda eu hiechyd. Cyflwynwn y cleifion oll i ofal Duw a gweddiwn y bydd pob un ohonynt yn cael adferiad iechyd llwyr a buan ac y bydd Duw yn ei holl ddaioni yn rhoi nerth a chysur iddynt yn eu hangen.
- Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Doreen Evans (Llansannan) oedd yn datlu pen-blwydd arbennig yn ystod yr wythnos!

## Gwaith Cwrs Ysgolion Sul Henaduriaeth Dyffryn Clwyd 2018

Gair i'ch hysbysu am fanylion gwaith cwrs yr Ysgolion Sul eleni. Y dasg a osodwyd i'r plant a'r ieuencid yw cywaith unrhyw gyfrwng ar y thema '**Caru ein Cymydog**'. Gofynnir am gywaith gyda'r holl blant wedi cyfrannu ato mewn unrhyw gyfrwng, e.e. gwaith ymchwil, ysgrifennu stori, dramodig, poster, gweddi, cyflwyniad PowerPoint. Bydd arddangosfa o'r gwaith yn cael ei greu ar gyfer yr Henaduriaeth fydd yn cyfarfod yn Llansannan ar Mai 11eg, pryd cyflwynir tystysgrifau, a bydd sgwrs, lluniaeth ysgafn i bawb ac adloniant i'r plant i ddiweddu'r noson. Bydd angen i'r cyweithiau fod yn barod **erbyn nos Lun, Mawrth 26ain**.

Ar gyfer yr oedolion, gofynnir am gyflwyniad ar yr un thema – '**Caru ein Cymydog**'. Os yn cyflwyno traethawd, dylid cyfyngu i ddim mwy na 1,000 o eiriau, neu gellir cyflwyno gwaith llaw neu arddangosfa flodau. Os am gyflwyno arddangosfa flodau, gofynnir i chi ddod â'r gosodiad ar y noson wobrwyo yn unig a gadael i'r ysgrifennydd (Meirwen Hughes - 01745 823802) wybod ymlaen llaw er mwyn cael rhoi eich enwau yn yr adroddiad. Pob hwyl wrth baratoi'r gwaith!

## I ddod

- **PENWYTHNOS PLANT GOFALAETH BRO ALED (8–12 OED)** yng Ngholeg y Bala, Chwefror 2<sup>il</sup> – 4<sup>ydd</sup>. Cofiwch bod £20 o ostyngiad i bob plentyn, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwysi Bro Aled. Bydd angen anfon ffurflen ganiatâd i archebu lle, ynghyd â blaendâl o £10 (i Goleg y Bala) mor fuan â phosibl. Bydd mwy o wybodaeth yn cael ei ddosbarthu yn ystod yr wythnos, ond os na fyddwch wedi derbyn gwybodaeth, plis cysylltwch â Gwion.



## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 14<sup>eg</sup> Ionawr 2018

## Darlleniad y Dydd

1 Ioan 2:15-17

(BCND tud.264 / BCN tud.242)

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

[hyfforddiantdawn.com](http://hyfforddiantdawn.com)

Bore da a chroeso cynnes i chi i'r oedfaon ar draws Bro Aled. Dewch i ni roi clod i'r Arglwydd trwy ein mawl heddiw gan ei fod yn deilwng o'n holl fawl. Dewch i ni gydaddoli'r Duw byw sy'n frenin perffaith, yr un sy'n codi'r gwan o'r llwch ac yn achub yr anghenus.

Tybed ydych chi'n gyfarwydd efo'r geiriau "Ni all neb wasanaethu dau feistr... Ni allwch wasanaethu Duw ac Arian"? Mae Iesu'n eu dweud fel rhan o'r Bregeth ar y Mynydd yn Mathew 6. Maen nhw'n weddol adnabyddus, ond tybed ydyn ni wir yn ystyried beth maent yn eu olygu? A meddwl am eiriau Ioan yn ein darlleniad heddiw, beth mae'n ei olygu i "beidio caru'r byd a'i bethau..." ond yn hytrach, caru'r Tad.

Os edrychwn ar adnod 16 o 1 Ioan 2, gwelwn restr o bethau sy'n cael eu cynnig gan y Byd: trachwant y cnawd a'r llygad, a balchder mewn meddiannau. Mewn rhai cyfieithiadau mae 'brolio yn y pethau ryda ni wedi eu cyflawni'. Ydy rhain yn 'ddigwyddiadau' penodol? Nac ydyn! Cyfeiriadau at ffordd o feddwl ydynt, ffordd o feddwl sy'n arwain ni oddi wrth Dduw a thuag at hunanoldeb, balchder a thrachwant – tri cham sy'n ein harwain yn bellach o lle dylem ni fod.

Ystyriwch drachwant y cnawd neu bethau corfforol. Rydym yn aml yn gallu anwybyddu hyn gan feddwl ei fod yn gyfyngedig i anfoesoldeb rhywiol, ond y gwir ydy ei fod yn cyffwrdd ar bob agwedd o'n bywydau ni! Chwennych bwyd neu ddiod arbennig i'r fath raddau fel ein bod ni'n byw ar gyfer y pethau yna – maent yn dod yn feistri ar ein bywydau.

Ystyriwch wedyn drachwant y llygaid, neu chwant am bethau materol. Eto, mae'n cynnwys yr agwedd rywiol, ond mae hefyd yn ymestyn at farnu pobl yn ôl eu edrychiad, neu ymarweddiad. Os ydym yn canolbwyntio gymaint ar olwg pobl eraill neu ar ein hunanolwg, yna rydym yn anwybyddu priodweddau ysbrydol a chymeriad person.

Yn olaf wedyn, mae gennym falchder mewn meddiannau a chyflawniadau neu gampau. Efallai ein bod yn ymfalchïo yn ein balchder o'n meddiannau, neu o'n clyfrwch, o'n ffrindiau neu o'n cyfoeth. Mae hyn yn ein harwain i feddwl ein bod o statws uwch na rhai pobl, gan edrych i lawr ar bobl eraill ac i ffwrdd o ogoneddu Duw am ei gariad a'i ffyddlondeb.

Os ydym yn dweud ein bod yn Gristnogion, hynny ydy yn bobl sy'n byw trwy ras Duw yn unig i addoli Duw efo'n holl berson, ond eto yn parhau i gwrso beth sydd gan y byd i gynnig i'n boddhau ni, allwn ni yn wir ddweud mai Iesu sy'n gyntaf yn ein calonnau?

## Darlleniad Wythnos Nesaf

Diarhebiion 9:7-10 (BCND tud.583 / BCN tud.533)

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

Gwion

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma – 14<sup>eg</sup> ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Alun Jones a bydd y Parch. Rhun Murphy yn pregethu.
- Mawrth – 16<sup>eg</sup> ➤ **Cyfarfod Plant Ysgol Pant Pastynog** o 3.00-4.30.
- Mercher – 17<sup>eg</sup> ➤ **Dal i Gredu** – sesiwn holi a thrafod yn Ffestri Cefn Meiriadog am 7.30. Croeso i bawb.
- Iau – 18<sup>fed</sup> ➤ **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.  
➤ **Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod yng Nghapel y Pentre, Llanrhaeadr. Pwyllgor Gwaith am 4.30, a Gwaith yr Henaduriaeth am 6.00.
- Sul nesaf – 21<sup>ain</sup> ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig a bydd Rhodri yn pregethu.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 14<sup>eg</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yno am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf – 21<sup>ain</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 14<sup>eg</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Gwener – 19<sup>eg</sup> ➤ Cynhelir y Clwb Cinio yng Nghapel Llanefydd am 11.45. Yr enwau i'w cyflwyno i Eluned (540453) neu Carol (540320) **erbyn dydd Sul (14<sup>eg</sup>)**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 21<sup>ain</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Llanefydd am 10.00.

### Saron a Pheniel

- Sul yma – 14<sup>eg</sup> ➤ Bydd y Parch. Rhun Murphy yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.
- Sul nesaf – 21<sup>ain</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun i'r daith ym Mheniel am 10.00 a bydd Ysgol Sul yno am 2.00.

## Cyhoeddiadau

### Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 14<sup>eg</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.  
➤ Ni fydd oedfa yn Nantglyn.
- Llun – 15<sup>fed</sup> ➤ Bydd Cymdeithas Llansannan yn cyfarfod yn y Ffestri am 7.30 pryd y bydd Nest ac Ifor Glyn yn rhannu hanes eu taith i Tsieina. Croeso i bawb.
- Mawrth – 16<sup>eg</sup> ➤ Paned a Sgwrs yn Ffestri Llansannan am 1.30. Croeso i bawb.
- Mercher – 17<sup>eg</sup> ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion Jones, Y Gorlan (870656) **HEDDIW (14<sup>eg</sup>)**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 21<sup>ain</sup> ➤ Bydd y Parch. Gareth Edwards yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.  
➤ Bydd y Parch. Gareth Edwards yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

### Henllan a Groes

- Sul yma – 14<sup>eg</sup> ➤ Cynhelir Oedfa Thema yn Henllan am 10.00 a Chyfarfod Gweddi yn Groes am 10.00. Bydd yr Ysgol Sul yn cyfarfod yn Henllan a Groes am 2.00.
- Sul nesaf – 21<sup>ain</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.

### Manylion Cyswilt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291

Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 582644 📞 07849 591163

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536

*Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.*

### Eglwysi Bro Aled

**Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.**